TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

**Trafnidiaeth Cymru – Cyfarfod y Bwrdd**

010:00 – 15:30; 21 Tachwedd 2018

Swyddfeydd Llywodraeth Cymru, Tŷ Ladywell, y Drenewydd

---

**Cofnodion**

**Yn bresennol:**

Nick Gregg (CA a Chadeirydd) (NG)
Sarah Howells (CA) (SH)
Nikki Kemmery (CA) (NK)
Gareth Morgan (Trafnidiaeth Cymru) (GM)
James Price (PSG) (JP)
Alison Noon-Jones (CA) (ANJ)
Heather Clash (Trafnidiaeth Cymru) (HC)
Jeremy Morgan (Ysgrifenyddiaeth) (JM)

Nid oedd unrhyw sylwedyddion o Lywodraeth Cymru. Dywedodd Llywodraeth Cymru wrth NG na fydd mwyach yn anfon sylwedyddion i gyfarfodydd y Bwrdd ac na fydd ond yn derbyn cofnodion y cytunwyd arnynt.

**Rhan A: Cyfarfod Llawn y Bwrdd**

**1) Cyflwyno**

**a. Ymddiheuriadau am Absenoldeb**

1. Croesawodd y Cadeirydd y Bwrdd i'r Drenewydd. Nid oedd ymddiheuriadau am absenoldeb.

**b. Hysbysiad Cworwm**

2. Gan fod cworwm yn bresennol, cyhoeddodd y Cadeirydd fod y cyfarfod yn agored. Cadarnhaodd y Cadeirydd fod hysbysiad o'r cyfarfod wedi'i roi i bob Cyfarwyddwr.

c. **Gwrthdaro rhwng buddiannau**

3. Gofynnodd y Cadeirydd a oedd unrhyw wrthdaro rhwng buddiannau i'w datgan. Ni ddatganwyd unrhyw wrthdaro newydd na diweddariadau. Eglurodd JP fod gwrthdaro yn disgyn i ran LB, a fydd yn dod i sesiynau agored y cyfarfod, gan ei fod wedi'i secondio'n llawn amser o Keolis Amey i Trafnidiaeth Cymru. Atgoffodd NG y Bwrdd o'r angen i sicrhau bod y Gofrestr Buddiannau'n gyfredol bob amser. Datganodd SH fuddiant yn ei hymwneud ag Orangebox.

***CAM GWEITHREDU: Holl aelodau'r bwrdd i edrych ar y gofrestr buddiannau ar-lein a rhoi gwybod i JM am unrhyw newidiadau.***

d. **Cofnodion a chamau gweithredu cyfarfodydd blaenorol**

4. Cymeradwywyd y cofnodion o gyfarfod y Bwrdd ar 18 Hydref. Trafodwyd sawl cam gweithredu nad oedd wedi'i gwblhau:
    - Cam gweithredu cyf. C1 - mae'r Pen Cynllunydd Trafnidiaeth yn gweithio i gynhyrchu papur i'r Bwrdd cyn gynted â phosibl.
    - Cam gweithredu cyf. A3b - mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu adroddiadau yn erbyn y DPAion fel rhan o'r Bwrdd Gweithrediadau. Fodd bynnag, mae dangosfyrddau TrC yn dechrau dod i'r fei. Dywedodd y Cadeirydd yr hoffai ef i'r Bwrdd adolygu'r dangosfyrddau.
    - Cam gweithredu cyf. A3f - mae cynllun busnes TrC ar fin cael ei gyhoeddi. Mae TrC nawr yn disgwyl am lythyr cylch gwaith newydd gan Lywodraeth Cymru.

***CAM GWEITHREDU: JP i sicrhau eglurder yn y llythyr cylch gwaith o ran pob maes y mae TrC yn darparu cymorth i Lywodraeth Cymru ynddo.***

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

- Cam gweithredu cyf. A4a - cytunir ar gylch gorchwyl pob is-bwyllgor yn ddiweddarach yn y cyfarfod. Unwaith y cytunir arnynt, bydd cylch gorchwyl pob is-bwyllgor yn cael ei gyhoeddi ar wefan TrC.

***CAM GWEITHREDU: JM i sicrhau y bydd cylchoedd gorchwyl yr is-bwylllgorau yn cael eu cyhoeddi ar wefan TrC, cyn gynted ag y bydd y Bwrdd wedi cytuno arnynt.***

- Cam gweithredu cyf. A2c - heb ei gyflawni.

***CAM GWEITHREDU: GM i fynd ar ôl Trafnidiaeth Cymru o ran y gweithdrefnau ar gyfer digwyddiadau problemus a digwyddiadau mawr***

- Cam gweithredu cyf. A3a - mae'r gwaith o feincnodi presenoldeb yn nigwyddiadau'r diwydiant yn mynd rhagddo a dylid dod â'r cam gweithredu hwn i ben.
- Cam gweithredu cyf. A4 - Efallai y bydd angen diweddaru Erthyglau Cymdeithasiad y cwmni a'i Gytundeb Fframwaith gyda Llywodraeth Cymru er mwyn cynnwys gwasanaethau ehangach yn y llythyr cylch gwaith nesaf. I'w gysylltu â cham gweithredu Cyf 3.

***CAM GWEITHREDU: JM, JP a GM i asesu a fydd cynnwys gwasanaethau ehangach yn y llythyr cylch gwaith nesaf yn golygu bod rhaid gwneud newidiadau i Erthyglau Cymdeithasiad y Cwmni a/neu'i Gytundeb Fframwaith.***

**2) Diogelwch**

**a. Sylw i Ddiogelwch**

5. Rhoddodd JP wybod i'r Bwrdd fod contractwr i Network Rail wedi marw'n ddiweddar yn ne-ddwyrain Lloegr. Mae angen atgoffa holl staff Trafnidiaeth Cymru i sicrhau eu bod yn gwybod pam yn union y gallen nhw fod yn gweithio y tu allan i'r parth diogelwch, a sicrhau eu bod yn cael yr hyfforddiant priodol.

***CAM GWEITHREDU: GM i sicrhau bod holl staff Trafnidiaeth Cymru yn cael eu hatgoffa o'r angen i wybod pam yn union y gallen nhw fod yn gweithio y tu allan i'r parth diogelwch, a sicrhau eu bod yn cael yr hyfforddiant priodol.***

**b. Perfformiad diogelwch**

6. Ystyriodd y Bwrdd yr adroddiad diogelwch a gyflwynwyd gan GM:

I. Gwasanaethau corfforaethol - mae 26 aelod staff wedi cael brîff diogelwch gorfodol. Bydd datblygu'r matrics hyfforddiant a'r system PMR yn sicrhau bod cofnod yn cael ei gadw o ba staff sydd wedi cael hyfforddiant a pha staff y mae ei angen arnynt eto. Mae systemau'n cael eu rhoi ar waith i fonitro oriau gwaith ac iechyd a lles, ond mae angen pellach am gyrsiau PTS a chymorth allanol. Mae gan y cwmni set o gyfarpar diogelu personol sy'n cydymffurfio'n llwyr â'r gofynion.

***CAM GWEITHREDU: GM i sicrhau bod safonau Iechyd a Diogelwch corfforaethol uchel yn cael eu cynnal, bod y staff i gyd yn cael eu hatgoffa o'r gofyniad statudol i fynd i'r Brîff Diogelwch a bod y rhai nad ydynt wedi gwneud hynny eto i'w wneud cyn gynted â phosibl.***

II. Ar hyn o bryd, gwaith arolygu yw'r gwaith adeiladu. Mae nifer cynyddol o achosion lle bu ond y dim i ddamwain ddigwydd wedi cael eu riportio. Mae hyn yn beth cadarnhaol, oherwydd mae materion a allai achosi damwain yn cael eu riportio. Mae angen gosod achosion lle bu ond y dim i ddamwain ddigwydd yn eu cyd-destun, gyda niferoedd neu ddata poblogaeth wedi'u normaleiddio.

***CAM GWEITHREDU: Ar gyfer cyfarfodydd y Bwrdd yn y dyfodol, GM ac NK i ddarparu ffigurau iechyd a diogelwch sydd wedi'u rhoi mewn mwy o gyd-destun.***

III. Cododd NG bryderon sylweddol fod y DPA diogelwch yn cynnwys targedau i "Gyfanswm Ymosodiadau Corfforol" a "Chyfanswm Ymosodiadau Geiriol". Dywedodd GM fod hwn yn darged cyffredin ar draws y diwydiant. Cytunodd y Bwrdd y dylai targedau o'r fath fod yn 0 ac y dylid asesu a yw'r

ffigurau gwirioneddol yn gwella ai peidio. Hoffai'r Bwrdd wedl tuedd ar i lawr y gall TrC ei chymharu â meincnodau'r diwydiant.

| |
|---|
| ***CAM GWEITHREDU: Drwy'r is-bwyllgor Iechyd a Diogelwch, GM ac NK i ofyn i'r Gwasanaethau Rheilffyrdd ddefnyddio tueddiadau yn hytrach na thargedau fel mesurau, yn enwedig i ddata yn ymwneud ag ymosodiadau, dim ots beth yw'r norm yn y diwydiant.*** |

IV. Holodd NG ynglŷn â'r ffigurau yn ymwneud â nifer y digwyddiadau ar groesfannau gwastad. Cadarnhaodd GM fod gan Network Rail fapiau gwres ar gyfer y digwyddiadau hyn.

| |
|---|
| ***CAM GWEITHREDU: AC i gael ffigurau Network Rail am ddigwyddiadau ar groesfannau gwastad.*** |

7. Holodd NK sut mae TrC yn ymgysylltu â'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Cadarnhaodd GM fod TrC yn ymgysylltu â'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, ond awgrymodd NK y gallai hyn gael ei wneud ar lefel uwch ac y byddai hi'n barod i helpu gyda'r ymgysylltu.
8. Cytunodd y Bwrdd y byddai'n fuddiol i'r Gwasanaethau Rheilffyrdd ddod i gyfarfod o'r Bwrdd i roi cyflwyniad ar sut maen nhw'n delio â materion diogelwch.

| |
|---|
| ***CAM GWEITHREDU: GM i gysylltu â'r Gwasanaethau Rheilffyrdd i ofyn a allent ddod i gyfarfod o Fwrdd TrC i roi cyflwyniad ar sut maen nhw'n delio â materion diogelwch.*** |

**3) Diweddariad Strategol/Datblygu**

**a. Adroddiad y Prif Weithredwr**

9. Rhoddodd JP wybod i'r bwrdd am yr uchafbwyntiau yn ei adroddiad fel Prif Weithredwr. Nododd y Bwrdd adroddiad JP ar y tarfu ar wasanaethau yn

ddiweddar a gofynnodd iddo barhau i weithio gyda'r Gwasanaethau Rheilffyrdd i ganfod gwreiddyn y broblem er mwyn atal hyn rhag digwydd eto.

| |
|---|
| ***CAM GWEITHREDU: JP i barhau i weithio gyda'r Gwasanaethau Rheilffyrdd i ganfod gwreiddyn y broblem a oedd wedi achosi'r tarfu ar wasanaethau yn ddiweddar, er mwyn ei atal rhag digwydd eto.*** |

10. Dywedodd JP hefyd fod y PPM am y cyfnod cyfredol yn well na'r un adeg y llynedd, er bod angen cymryd gofal i sicrhau bod ansawdd y data yn gadarn.
11. Dywedodd JP hefyd fod TrC yn parhau i drafod y posibilrwydd o ehangu'i gylch gwaith gyda Llywodraeth Cymru. Trafododd y Bwrdd yr angen i sicrhau bod unrhyw waith sy'n gysylltiedig â chaffael y contract gwasanaethau rheilffyrdd yn cael ei ddirwyn i ben.

| |
|---|
| ***CAM GWEITHREDU: JP i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i'w hysbysu o'r penderfyniad i ddod â'r holl waith ymgynghorol yn ymwneud â chaffael i ben cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol.*** |

12. O ran staffio, cadarnhaodd JP y bydd cyfarwyddwr Adnoddau Dynol newydd TrC yn dechrau ym mis Ionawr 2019. Dechreuodd y Cyfarwyddwr Masnachol a Phrofiad Cwsmeriaid yr wythnos diwethaf.
13. Hysbysodd JP y Bwrdd nad oedd unrhyw broblemau mawr o ran y prosiect gweddnewid a oedd rhyw draean o'r ffordd drwy'r broses ddylunio.

**b. Y diweddaraf o ran cynnydd yr is-bwyllgorau - Cyfarwyddwyr Anweithredol**

14. Yr is-bwyllgor Archwilio a Risg. Cadarnhaodd NG y bydd ef yn cadeirio cyfarfodydd cychwynnol y Pwyllgor Archwilio a Risg nes bydd Llywodraeth Cymru wedi penodi Cyfarwyddwr Anweithredol (CA) cyllid newydd. Roedd NG yn derbyn fod y sefyllfa hon yn risg o safbwynt llywodraethu, ond nad oedd

fawr o ddewis fel arall. Mae TrC hefyd yn chwilio am aelod annibynnol o'r Pwyllgor Archwilio a Risg sydd â chefndir ariannol cryf.

15. Caiff cyfarfod cyntaf y Pwyllgor Archwilio a Risg ei gynnal ar 4 Rhagfyr pan fydd yn cytuno ar y cylch gorchwyl a'r polisi a'r cynllun archwilio mewnol, yn cadarnhau penodi gwasanaethau archwilio allanol, yn cytuno ar y polisi atal llwgrwobrwyo ac yn craffu ar broffil risg ariannol y Cwmni.

***CAM GWEITHREDU: JP i ofyn i KH roi blaenoriaeth i benodi Cyfarwyddwr Anweithredol Cyllid.***

16. Cyfathrebu a Gwasanaethau i Gwsmeriaid. Rhedodd SH drwy'r cylch gorchwyl a derbyniodd y Bwrdd ef. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf yr is-bwyllgor yr wythnos diwethaf. Heriodd NG yr is-bwyllgor i gytuno gyda'r Gwasanaethau Rheilffyrdd ar beth yw gwasanaeth rhagorol i gwsmeriaid.

***CAM GWEITHREDU: SH, ar y cyd â'r Gwasanaethau Rheilffyrdd, i ysgrifennu disgrifiad clir, y cytunir arno, sy'n egluro beth yw gwasanaeth rhagorol i gwsmeriaid, gyda nodau a rennir.***

17. Pobl. Mae Cyfarwyddwr Anweithredol adnoddau dynol TrC i fod i ddechrau ym mis Ionawr. Mae cylch gorchwyl yr is-bwyllgor wedi'i ddrafftio ond ni chytunwyd arno eto.

***CAM GWEITHREDU: ANJ i rannu cylch gorchwyl yr is-bwyllgor Pobl gyda'r Bwrdd, i'w gymeradwyo.***

18. Diogelwch. Cynhaliwyd cyfarfod cychwynnol rai wythnosau'n ôl ac mae'r cyfarfod nesaf i fod i gael ei gynnal ar 19 Rhagfyr 2018. Mae'r is-bwyllgor yn gobeithio magu gwell dealltwriaeth o sut a beth sy'n cael ei fesur.

***CAM GWEITHREDU: NK a GM i sicrhau bod damweiniau y bu ond y dim iddynt ddigwydd neu ddamweiniau yn cael eu riportio ym mhob cyfarfod o'r Bwrdd, gan gynnwys pam y digwyddodd y digwyddiad, y camau a gymerwyd mewn ymateb ac unrhyw brosesau a roddwyd ar waith er mwyn dysgu.***

c. Cyllid

19. Cyflwynodd HC yr adroddiad ariannol i'r Bwrdd. Dywedodd HC fod yr archwilydd mewnol yn gweithio drwy broses adrodd WEFO ar y pryd. Drwy broses gaffael gystadleuol mae TrC wedi penodi SA Global fel partner ffurfweddu i Microsoft Dynamics. Roedd HC yn rhagweld y byddai'r system newydd yn weithredol erbyn y flwyddyn ariannol newydd.

20. Cododd HC fater yr angen am reolaeth dynn dros y gwariant o £738 miliwn ar y rhaglen gyfalaf. Cytunai NG, ar sail ei brofiad o ddiwydiannau eraill, fod angen cynllunio ariannol cadarn a chywir o ran seilwaith. Mae TrC wedi darparu cynllun pum mlynedd o ran gwariant ar seilwaith i Lywodraeth Cymru. ***CAM GWEITHREDU: HC i ddarparu cynllun wedi'i ddiwygio i Lywodraeth Cymru o ran gwariant ar seilwaith .***

21. Gofynnodd NG am eglurhad o'r gwariant yn erbyn y gyllideb a'r angen am eglurder mewn rhai meysydd.

22. Cododd NG bryder ynglŷn â sut i ddelio ag unrhyw ofynion o du Llywodraeth Cymru am waith ychwanegol. Cadarnhaodd JP mai dim ond drwy lywodraethu priodol y mae hyn yn mynd yn ei flaen, ac os yw'r gyllideb yn ei lle.

23. Cytunodd y Bwrdd i ryddhau oddeutu £575k o danwariant o ran gwariant gweithredol i Lywodraeth Cymru. Roedd Llywodraeth Cymru wedi cysylltu â TrC gan ofyn iddo nodi arbedion.

24. Trafododd HC yr angen hefyd am driniaethau a pholisïau cyfrifyddu clir.

| |
|---|
| ***CAM GWEITHREDU: HC i sicrhau bod pob polisi, gweithdrefn a thriniaeth gyfrifyddu yn gynhwysfawr ac yn ei lle.*** |

25. Dywedodd HC fod tanwariant posibl ar wariant cyfalaf yn 2018-19. Mae'r Gwasanaethau Rheilffyrdd wedi darparu rhestr o feysydd i TrC lle gellid gwario unrhyw danwariant. Byddai HC a JP yn codi hyn gyda Llywodraeth Cymru ar 22 Tachwedd 2018. Pwysleisiodd NG yr angen i lunio cynlluniau pendant o ran sut y gellir gwario cyfalaf dros weddill y flwyddyn.

**d. Cydymffurfiaeth/Perfformiad Llywodraethu**

26. Bydd JP yn ymddangos yng nghyfarfod Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau ar 29 Tachwedd 2018.

27. Mae'r gwaith o lunio rhestr fer ar gyfer rôl barhaol Cadeirydd TrC wedi'i gwblhau a bydd y cyfweliadau'n cael eu cynnal dros yr wythnosau nesaf.

**e. Unrhyw fater arall**

28. Gofynnodd NK a oes angen i Gomisiwn Seilwaith Llywodraeth Cymru fod ar radar rhanddeiliad TrC. Cadarnhaodd y dylai fod, ond nid yw'n gorff statudol.

| |
|---|
| ***CAM GWEITHREDU: Simon Jones i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am Gomisiwn Seilwaith Llywodraeth Cymru yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd.*** |

**Rhan C: Sesiwn Agored**

**1) Diweddariad ar Strwythur y Sefydliad a Recriwtio**

29. Cyflwynodd GO siart strwythur drafft TrC gyda'r cafeat y bydd yna wastad rywfaint o symud yn nyddiau cynnar y Cwmni. Erbyn hyn mae TrC yn cyflogi 36 o staff ac mae 19 pellach i fod i ddechrau cyn diwedd Mawrth 2019.

**2) Trosolwg o'r gwaith a'r cynlluniau i uwchraddio Llinellau Craidd y Cymoedd**

30. Cododd KG gyda'r Bwrdd y bydd contractau YCC (Ymgysylliad Contractwr Cynnar) yn cael ei gosod ym mis Ionawr a chafodd ei herio i gyflymu'r broses o ystyried materion trwyddedu gyda Cyfoeth Naturiol Cymru.

31. Cafwyd trafodaeth wedyn am gapasiti Llinellau Craidd y Cymoedd a phenderfynwyd y dylai papur pellach ddod gerbron y Bwrdd yn adlewyrchu'r defnydd a ragwelir yn erbyn y capasiti.

| |
|---|
| ***CAM GWEITHREDU: AC i gynhyrchu papur i'r Bwrdd ar y defnydd a ragwelir yn erbyn y capasiti.*** |

**3) Trosglwyddiadau Llywodraeth Cymru**

32. Rhedodd JP drwy'r papur ar y gwasanaethau y byddai Llywodraeth Cymru am eu trosglwyddo o bosibl, gan dynnu sylw at sawl risg a chyfle. Mae manteision arbennig o ran y priffyrdd i sicrhau darpariaeth fwy cydgysylltiedig ac integredig.

**4) Risgiau a chamau lliniaru allweddol**

33. Tynnodd NG sylw at yr angen i sicrhau bod pob risg ar draws y Cwmni, yn cynnwys risgiau ariannol, yn gyson â'i gilydd.

| |
|---|
| ***CAM GWEITHREDU: GO i weithio gyda HC ar risgiau ariannol i sicrhau bod y gwahanol risgiau yn gyson â'i gilydd.*** |

**5) Gridiau cyfathrebu**

34. Amlinellodd LB y prif faterion yn ymwneud â chyfathrebu, gan bwysleisio'r angen i sicrhau bod cynllunio sut i ymateb i argyfwng yr un mor bwysig â chyfleu negeseuon cadarnhaol yn gyhoeddus.

---

## Pwyllgor cymeradwyo

1. **Cynllun Dirprwyo:** Cyflwynodd GM yr eitemau allweddol i'r Bwrdd mewn perthynas â'r Cynllun Dirprwyo. Trafodwyd sawl mater, a chytunwyd ar welliannau:
   - Dylai adroddiadau uniongyrchol JP ddod i'r Bwrdd i gael eu cymeradwyo; a
   - Dylai'r Bwrdd gymeradwyo unrhyw beth y tu hwnt i'r telerau a'r amodau safonol ar gyfer cyflogi staff.

**Cymeradwyodd y Bwrdd y Cynllun Dirprwyo, yn amodol ar y gwelliannau uchod**

***CAM GWEITHREDU: HC i gyflwyno papur i'r Bwrdd ar raddau swyddi yn ei gyfarfod nesaf***

2. **Cerbydau MV:** Arweiniodd JP a HC yr aelodau drwy'r papur ar gerbydau MV. Cyflwynwyd dau opsiwn i'r Bwrdd. Ar ôl trafod, **cytunodd y Bwrdd i'r argymhelliad y dylid derbyn y ddau opsiwn.**

***CAM GWEITHREDU: Tîm Gweithredol TrC i geisio cael ymrwymiad dan gontract gan y Gwasanaethau Rheilffyrdd o ran ymrwymiadau amserlen i'r dyfodol.***

***CAM GWEITHREDU: JP i ddarparu diweddariad un dudalen i'r Bwrdd ar gerbydau yn ei gyfarfod nesaf.***